# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion cryno : HWLG(3)-04-11 : 17 Mawrth 2011

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_17_03_2011&t=0

**Amser: 09.00 – 12.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jonathan Morgan, Gogledd Caerdydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Veronica German, Dwyrain De Cymru
Irene James, Islwyn
Helen Mary Jones, Llanelli
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Nick Ramsay, Mynwy

### Tystion

Ruth Crowder, Swyddog Polisi Cymru, Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (Eitem 2)
Sara Forster, Aelod o Gyngor y Therapyddion Galwedigaethol (Eitem 2)
Peter Finch, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cysylltiadau Cyflogaeth a Gwasanaethau Undebau, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (Eitem 2)
Philippa Ford, Swyddog Polisi yng Nghymru, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (Eitem 2)
Des Mannion, Pennaeth y Gwasanaeth, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (Eitem 3)
Cecile Gwilym, Swyddog Polisi, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (Eitem 3)
Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Eitem 4)
Steve Milsom, Dirprwy Gyfarwyddwr (dros dro), Is-adran Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Llywodraeth Cymru (Eitem 4)
Julie Rogers, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant, Llywodraeth Cymru (Eitem 4)
Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Eitem 5)
Paul Williams, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru (Eitem 5)
Chris Hurst, Cyfarwyddwr Adnoddau, Llywodraeth Cymru (Eitem 5)
Liz Davis, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Llywodraeth Cymru (Eitem 5)
Tina Donnelly, Cyfarwyddwr, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (Eitem 6)
Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (Eitem 6)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Sarah Hatherley, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu gwaith ar y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol dros gyfnod y trydydd Cynulliad.

### Eitem 2: Hynt gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar Gynllunio Gweithlu yn y Gwasanaeth Iechyd ac ym maes Gofal Cymdeithasol

2.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch recriwtio a chadw therapyddion a ffisiotherapyddion galwedigaethol; prosesau cynllunio gweithlu ar gyfer therapyddion a ffisiotherapyddion galwedigaethol; a chynllunio gweithlu yn y gwasanaeth iechyd ac ym maes gofal cymdeithasol.

### Eitem 3: Hynt gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar CAFCASS

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor Cynghori CAFCASS Cymru; gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc; gwella gweithdrefn gwyno CAFCASS; yr arian a'r cymorth sydd ar gael i ganolfannau cyswllt plant; a threfniadau diogelu lleol.

### Eitem 4: Gwaith craffu cyffredinol a hynt y Llywodraeth o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar CAFCASS

4.1 Bu'r Dirprwy Weinidog yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch canfyddiadau adroddiad archwiliad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar CAFCASS Cymru; gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc; yr arian a'r cymorth sydd ar gael i ganolfannau cyswllt plant; a rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor Cynghori CAFCASS Cymru. Bu'r Dirprwy Weinidog hefyd yn ateb cwestiynau craffu cyffredinol gan y Pwyllgor.

### Cam i'w gymryd

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am aelodaeth Pwyllgor Cynghori CAFCASS.

### Eitem 5: Cynllunio Gweithlu yn y Gwasanaeth Iechyd ac ym maes Gofal Cymdeithasol a chraffu cyffredinol

5.1Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch y capasiti ar gyfer cynllunio gweithlu yn y GIG; ansawdd data; gwybodaeth am y gweithluoedd gofal cychwynnol a chymdeithasol; cynrychiolaeth gweithwyr iechyd proffesiynol yn y broses cynllunio gweithlu; cymhellion i wella'r broses o recriwtio a chadw gweithwyr iechyd proffesiynol; argymhelliad y Pwyllgor i gyflwyno cynllun interniaeth; a chynllunio gweithlu ar draws y sectorau. Atebodd y Gweinidog hefyd gwestiynau craffu cyffredinol gan y Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Y Pwyllgor i anfon gwybodaeth at y Gweinidog am y pwyntiau a godwyd gan dystion y Pwyllgor ynghylch ansawdd y data cynllunio gweithlu.

Cytunodd y Gweinidog a'i swyddogion i ymchwilio i'r llwybrau gofal niwrolawdriniaeth presennol yn Abertawe, ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch nifer yr ysgolion yng Nghymru sydd heb nyrs ysgol.

### Papurau a nodwyd

Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

HWLG(3)-04-11-p8 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol – Cynllunio Gweithlu

HWLG(3)-04-11-p9 Llythyr gan y Gweinidog ar yr Adolygiad o Wasanaethau Niwrolegol

HWLG(3)-04-11-p10 Llythyr gan y Gweinidog ar yr Adolygiad o Wasanaethau Niwrolegol

HWLG(3)-03-11-Cofnodion y cyfarfod blaenorol